



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Cyfrifoldebau cyflogwyr a SAUau

Gwybodaeth ar gyfrifoldebau cyflogwyr a SAUau, gan gynnwys dod yn llofnodwyr cydnabyddedig a sut i gwirio a chymeradwyo.

Cyhoeddwyd gyntaf: 16 Ionawr 2017

Diweddariad olaf: 16 Chwefror 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i <https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/cyfrifoldebau-cyflogwyr-a-sefydliadau-addysg-uwch> am y fersiwn diweddaraf.

Mae gan gyflogwyr a sefydliadau addysg uwch (SAU) gyfrifoldebau cofrestru. Mae'r cyfrifoldebau hyn yn cynnwys bod yn llofnodwyr cymeradwy, gwirio a chymeradwyo ceisiadau cyntaf a cheisiadau adnewyddu, a hyrwyddo'r Côt Ymarfer Proffesiynol ar gyfer Gofal Cymdeithasol.

Beth yw llofnodwyr

Mae'n rhaid i gyflogwyr a sefydliadau addysg uwch enwebu pobl briodol i weithredu fel llofnodwyr. Mae llofnodwyr yn cymeradwyo ceisiadau ac yn helpu i gynnal cofrestr gyfredol.

Mae dau fath o lofnodwr:

- prif lofnodwyr – rhywun mewn rôl uwch sydd â mynediad at gofnodion Adnoddau Dynol
- llofnodwyr ychwanegol – sy'n cael eu henwebu gan y prif lofnodwr ac sy'n gallu bod yn unigolyn sy'n gallu gwirio gwybodaeth, er enghraifft rheolwyr tîm.

Cyfrifoldebau llofnodwyr

Mae cyfrifoldebau llofnodwyr cyflogwyr neu sefydliadau addysg uwch yn cynnwys:

- [gwirio dogfennau adnabod](#)
- [cymeradwyo ceisiadau](#)
- cyfnewid gwybodaeth gyda ni
- ein hysbysu am unrhyw faterion yn ymwneud ag addasrwydd i ymarfer
- ein hysbysu os yw myfyriwr yn gohirio ei astudiaethau neu'n gadael y cwrs

- diweddarau gwybodaeth am ymrestru myfyrwyr a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd trwy ddefnyddio'ch [cyfrif SCWar-lein](#)
- cadarnhau [datblygiad proffesiynol parhaus \(DPP\)](#) (a elwid gynt yn PRTL).

Darllenwch ein canllawiau am [datblygiad proffesiynol parhaus \(DPP\)](#).

Gweler [ein fideos](#) am gyfrifoldebau cyflogwyr.

Sut i fod yn llofnodwr

I **ddod yn brif lofnodwr**, bydd angen i chi gysylltu â llofnodwyr@gofalcymdeithasol.cymru Gofynnir cwestiynau i chi i sicrhau eich bod yn addas i gyflawni'r rôl hon.

I ddod yn **llofnodwr ychwanegol**, ewch i '[Gwneud cais i Gymeradwyo](#)' yn eich cyfrif GCCarlein.

- Ar ôl eu cyflwyno, bydd y ceisiadau hyn yn ymddangos yn adran Llofnodwyr 'Fy Sefydliad' er mwyn i brif lofnodwr gymeradwyo neu wrthod.
- Rhaid i sefydliad gael prif lofnodwr cymeradwy cyn y gallwn ychwanegu unrhyw lofnodwr ychwanegol.

Mae cyfrifon ar CGGarlein yn unigol. Os ydych wedi cofrestru neu os oes gennych gyfrif eisoes, dylech ddefnyddio'r un cyfrif a mewngofnodi ar gyfer pob rôl a rhyngweithiad â ni.

Ar ôl dod yn llofnodwr

Ar ôl dod yn llofnodwr, byddwch yn derbyn e-bost sy'n cynnwys gwybodaeth am sut i greu'ch [cyfrif GCCarlein](#).

Mae GCCarlein yn helpu llofnodwyr i:

- weld y rhestr o ymgeiswyr ac unigolion cofrestredig ar gyfer eu sefydliad
- anfon dogfennau atom
- cysylltu â ni'n uniongyrchol
- gofyn am lofnodwyr newydd (prif lofnodwr yn unig)
- bod yn brif gyswllt ar gyfer materion cofrestru
- rhoi gwybod i ni os oes rhywun yn gadael ei swydd
- cadarnhau bod enw person cofrestredig sydd wedi'i gyflogi gan eich sefydliad yn ystod y 12 mis diwethaf wedi'i dynnu oddi ar y Gofrestr
- gweld gwybodaeth fanylach yn ymwneud â chofrestru, fel [sanctiynau addasrwydd i ymarfer](#).

Gwirio a chymeradwyo ceisiadau

Gall prif lofnodwyr a llofnodwyr ychwanegol gymeradwyo a gwirio ffurflenni cais a ffurflenni adnewyddu.

Wrth gymeradwyo, mae'n rhaid i lofnodwyr sicrhau bod yr holl wybodaeth ar y ffurflen gais yn gywir, yn benodol:

- datganiadau disgyblu neu droseddol
- dyddiad y gwiriad diweddaraf gan y [Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd \(DBS\)](#)
- nad ydynt yn gwybod am unrhyw reswm pam na ddylai person fod wedi'i gofrestru.

Mae'n rhaid i bob cais newydd gael ei gymeradwyo gan gyflogwr yr ymgeisydd.

Mae'n rhaid cymeradwyo ceisiadau adnewyddu rheolwyr a gweithwyr gofal cymdeithasol, gan gynnwys gweithwyr gofal cartref.

Nid oes angen cymeradwyo ceisiadau adnewyddu gweithwyr cymdeithasol cymwysedig.

Gellir cymeradwyo ffurflenni cais a ffurflenni adnewyddu trwy ddefnyddio [GCCarlein](#).

Os yw person yn eich dewis i'w gymeradwyo:

- byddwch yn derbyn cais mewn e-bost
- bydd angen gwirio'r ffurflen o fewn saith diwrnod
- byddwch yn cwblhau ac yn cyflwyno'ch cymeradwyaeth.

Os nad ydych yn gallu neu os nad ydych yn fodlon cymeradwyo cais, dylech e-bostio cofrestru@gofalcymdeithasol.cymru

Os oes gennych bryder am ymgeisydd neu berson cofrestredig, gwelwch [sut rydym yn delio â phryderon](#) am wybodaeth ar sut i godi eich pryder.

Darllenwch ein tudalennau canllau am [wirio](#) a [chymeradwyo](#).

Asesiad gan gyflogwr

Gelwir un o'r llwybrau i gofrestru yn asesiad gan gyflogwr. Gofynnwn i gyflogwyr gadarnhau addasrwydd ymgeisyddwrth eu hasesu yn erbyn rhestr o gymwyseddau.

Dyma fideo canllaw cyflym i helpu cyflogwyr i ddeall sut i reoli ceisiadau asesu gan cyflogwyr yn eu cyfrif [GCCarlein](#).

Gweld trawsgrifiad

0:04 --> 00:07

Mae hyn yn ganllaw i gyflogwr ar

0:07 --> 00:09

gwblhau'r broses o assesu

0:09 --> 00:10

cyflogwr.

0:15 --> 00:17

Os yw aelod o'ch sefydliad

0:17 --> 00:20

wedi gwneud cais i gofrestru trwy'r llwybr

0:20 --> 00:22

asesiad cyflogwr

0:22 --> 00:23

bydd angen i chi gwblhau'r

0:23 --> 00:26

cais asesiad cyflogwr ar-lein cyn

0:26 --> 00:29

y gallant gofrestru. Sylwch mai dim ond

0:29 --> 00:31

rheolwyr cofrestredig sydd â rôl 'asesydd

0:31 --> 00:33

cymhwysedd' fydd yn gallu cwblhau'r

0:33 --> 00:35

ceisiadau hyn.

0:35 --> 00:38

Bydd ceisiadau asesiad cyflogwr

0:38 --> 00:41

sydd heb eu cwblhau yn ymddangos o dan

0:41 --> 00:42

'ceisiadau am gymeradwyaeth'

0:42 --> 00:44

a bydd ganddynt fath o ardystiad

0:44 --> 00:46

'cadarnhau cymhwysedd'.

0:46 --> 00:48

os hoffech weld y cais cysylltiedig

0:48 --> 00:50

yn llawn, cliciwch ar

0:50 --> 00:53

'gweld ffurflen cais'.

0:53 --> 00:56

Y tu mewn i gofnod asesiad y cyflogwr,

0:56 --> 00:58

mae dolen 'cymorth' sy'n rhoi

0:58 --> 01:01

eglwurhad ar y gofynion a'r

1:01 --> 01:04

meini prawf i ymgeisydd ddefnyddio'r

1:04 --> 01:06

llwybr asesu cyflogwr.Yn gyntaf bydd

1:06 --> 01:08

angen i chi ymgyswrtio â'r wybodaeth ar

1:08 --> 01:12

y dudalen gymorth hon.

1:12 --> 01:14

Darllenwch drwy'r meysydd a restrir y

1:14 --> 01:16

mae'n rhaid i weithiwr gofal eu deall er mwyn

1:16 --> 01:19

defnyddio llwybr asesu'r cyflogwr. Os ydych

1:19 --> 01:21

yn hyderus bod gan yr ymgeisydd y ddealltwriaeth

1:21 --> 01:23

briodol i gofrestru drwy'r

1:23 --> 01:26

llwybr asesu cyflogwr,

1:26 --> 01:28

cliciwch ar 'cadarnhau y gall wneud cais'.

1:28 --> 01:31

Gallwch hefyd gynnwys rhagor

1:31 --> 01:32

o wybodaeth yma os dymunwch.

1:32 --> 01:35

Yn olaf, cliciwch cyflwyno i

1:35 --> 01:40

gwblhau'r cais asesiad cyflogwr.

Dysgwch fwy am y broses [asesiad gan gyflogwr](#).

Cysylltu â ni

Os oes gennych gwestiwn neu os na allwch ddod o hyd i'r hyn yr ydych yn edrych amdano, [cysylltwch â ni](#).